# CYNGOR SIR YNYS MÔN

## Dydd Iau, 14 Mai 2015  (10.30 o'r gloch)

Gweler ynghlwm, os gwelwch yn dda, adroddiad wedi ei farcio **“I DDILYN”** ar raglen y Cyngor Sir a oedd heb gyrraedd erbyn yr amser penodol.

**14.** **ADRODDIAD BLYNYDDOL ARWEINYDD Y CYNGOR** (Tudalennau 1 - 18)

Ystyried Adroddiad Blynyddol  Arweinydd y Cyngor mewn perthynas â pharagraff 4.1.16 o’r Cyfansoddiad.

This page is intentionally left blank

# ADRODDIAD BLYNYDDOL YR ARWEINYDD MAI 2015

## RHAGAIR

Flwyddyn ddiwethaf cefais fy meirniadu am roi darlun rhy bositif o gynnydd y Cyngor. Nid wyf yn ymddiheuro am roi'r darlun hwnnw gan fod y Cyngor wedi symud yn ei flaen yn sylweddol o le yr oedd yn 2009. Yn yr adroddiad hwn, byddaf yn cyfeirio at wendidau'r Cyngor yn ogystal â'r cynnydd da sy'n dal i ddigwydd.

Bydd yr adroddiad yma yn cyfeirio at yr hunanasesiad a baratowyd ar gyfer yr Asesiad Corfforaethol a wnaed gan SAC ym mis Chwefror gyntaf gan fod y gwaith yma yn adnabod ein gwendidau.

Mi fydd yr ail ran yn adrodd ar gynnydd yn erbyn y Maniffesto Annibynnol a baratowyd gennyf i'r etholiad yn 2013.

## ASESIAD CORFFORAETHOL

Ar ddiwedd Chwefror, cafwyd Asesiad Corfforaethol o'r Cyngor gan Swyddfa Archwilio Cymru. Bu tîm o archwilwyr yn cyfweld swyddogion ac aelodau am wythnos. Dyfynnir y cylch gorchwyl fel 'Diben yr asesiad corfforaethol yw darparu datganiad sefyllfa am adnoddau a gallu awdurdod i sicrhau gwelliant parhaus. Yn naturiol, bydd yn ystyried perfformiad a chanlyniadau blaenorol yr awdurdod yn ogystal â'r trefniadau allweddol sydd eu hangen i ategu gwelliannau mewn gwasanaethau a swyddogaethau.'

Paratowyd hunanasesiad ar gyfer ymweliad SAC. Mae copi o'r crynodeb a'r fersiwn lawn ynghlwm. Gwelir o'r gwaith yma bod yr hunanasesiad wedi ei seilio ar y 6 thema a ddatblygwyd fel sylfaen i'n rhaglen drawsnewid, sef:

Thema 1 - Proffesiynol ac yn cael ei redeg yn dda
Thema 2 - Arloesol, Uchelgeisiol ac eangfrydig
Thema 3 - Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned
Thema 4 - Gwerthfawrogi a Datblygu ein Pobl
Thema 5 - Ymrwymedig i Bartneriaeth
Thema 6 - Yn cyflawni

Canlyniad yr hunanasesiad oedd ein bod yn cyflawni'r ddwy thema gyntaf yn rhannol a'r pedwar olaf y rhan amlaf.

Mae'r hunanasesiad yn amlygu'r camau sydd eu hangen i gyflawni'r themâu yn llawn. Byddwn yn defnyddio'r wybodaeth hon i greu rhaglen waith a fydd yn ein galluogi ni i gwrdd â'r blaenoriaethau yn llawn dros y tair blynedd nesaf.

Nid ydym wedi derbyn yr adroddiad terfynol gan SAC ar eu dadansoddiad nhw o'r asesiad ond 'rydym wedi derbyn adborth anffurfiol (a allai newid ar ôl mynd drwy weithdrefnau mewnol y sefydliad) sy'n dweud bod ein hunanasesiad yn gywir. Dyma ddyfyniad cychwynnol o adroddiad amlinellol '*Mae'r Cyngor yn un hunan ymwybodol lle mae aelodau a swyddogion yn gweithio gyda'i gilydd yn gynhyrchiol ac efo partneriaid i fynd i'r afael â blaenoriaethau sydd wedi eu cytuno arnynt. Mae'r blaenoriaethau yn adlewyrchu anghenion lleol ac mae'r fframwaith llywodraethu yn eithaf cadarn.*'

Mae'r hunanasesiad a dadansoddiad cychwynnol SAC yn dangos ein bod yn Gyngor sydd wedi aeddfedu ac yn mynd i'r afael â newid y Cyngor a gosod sylfaen gref i'r dyfodol.

## CYNNYDD YN ERBYN Y MANIFFESTO ANNIBYNNOL

Isod mae'r penawdau yn fy maniffesto, crynodeb o'r bwriad ac wedyn crynodeb o'r sefyllfa gyfredol.

### TRETH CYNGOR

**Bwriad** - Ceisio cadw Ynys Môn yn y chwarter isaf o ran cyfraddau'r dreth gyngor yng Nghymru drwy adolygu cyllidebau yn rheolaidd.

**Sefyllfa gyfredol** - Ar hyn o bryd rydym wedi codi o'r chweched safle i'r wythfed. Er hynny, £10 o wahaniaeth sydd rhyngom ni ar £1296 (Band D) a Chonwy sydd nawr yn y chweched safle. Mae treth Cyngor Band D Ynys Môn £32 yn is na chyfartaledd Cymru, £134 yn is na Chyngor Sir Gwynedd ac £339 yn is na'r uchaf yng Nghymru.

Mae'r broses o osod y gyllideb wedi gwella yn raddol ond nid ydym wedi mynd i'r afael â gosod y gyllideb ar sail 'sero'. Er mwyn gosod cyllideb 2016-2017 y bwriad yw dadansoddi ein cyllideb ar sail tasg a gwahaniaethu rhwng y tasgau statudol ac anstatudol. Mae'r gwaith yma wedi dechrau yn barod ac mae sesiwn briffio wedi ei threfnu i'r holl aelodau ar yr 12fed o Fai.

### ADDYSG

**Bwriad** - Hwn oedd fy mlaenoriaeth uchaf. Moderneiddio addysg ar yr ynys i'r safonau uchaf. Dod allan o ymyrraeth. Creu strategaeth foderneiddio.

**Sefyllfa gyfredol** - Mae'r gwaith ar y flaenoriaeth yma wedi cychwyn yn addawol. Cynhyrchwyd strategaeth foderneiddio yr oedd y Cyngor i gyd yn ei chefnogi. Yna, dilynwyd y gweithdrefnau angenrheidiol yn ardal y Llannau a

Chaergybi ac mae cynlluniau i ddechrau adeiladu dwy ysgol newydd yn y flwyddyn nesaf. Mae gwaith ymgynghori yn mynd yn ei flaen yn ardal Rhosyr.

Ar y 20fed o Fehefin y llynedd, penderfynodd Estyn bod yr Awdurdod Addysg wedi gwneud cynnydd da o ran ymateb i argymhellion yr adroddiad ar yr arolwg a gyhoeddwyd ym mis Mai 2012.

Dywedodd yr arolygwyr bod newid a gwelliant arwyddocaol wedi digwydd dros gyfnod cymharol fyr, a hynny o fewn y gwasanaeth ysgolion ac yn gorfforaethol. Canlyniad hyn oedd datganiad gan Estyn nad oedd gwasanaethau addysg yr awdurdod bellach angen bod mewn mesurau arbennig.

Mae’r flaenoriaeth yma wedi ei chyflawni.

**GWASANAETHAU CYMDEITHASOL**

**Bwriad** - Gweithio gyda'r Gwasanaethau Cymdeithasol er mwyn sicrhau nad yw’r newidiadau trawsnewidiol arfaethedig yn lleihau'r gofal a ddarperir ar hyn o bryd, byddwn yn sicrhau mewnbwn pobl Môn i’r newidiadau a bydd y Cyngor yn cymryd eu safbwynt o ddifrif.

**Sefyllfa gyfredol** - Yn y maes pobl hŷn, mae’n strategaethau yn mynd rhagddynt i sefydlu gwasanaethau a fydd yn galluogi pobl i wneud dros eu hunain a lle bo modd, i aros yn eu cartrefi hyd ddiwedd ei oes.

Mae’r gwasanaeth wedi datblygu model ail-alluogi ac yn bwriadu canolbwyntio ar y maes yma wrth gomisiynu'r mwyafrif o ofal cartref. Mae’r gwaith yma yn mynd rhagddo.

Mae llawer o waith ymgysylltu a chydweithio wedi mynd rhagddo efo’n pobl hŷn trwy gydweithio efo’r trydydd sector a Medrwn Môn a thrwy’r prosiect arloesol Lleisiau Lleol, rydym wedi datblygu hybiau cymunedol yn ardal Seiriol a Chaergybi. Bu’r Gweinidog Mark Drakeford yn ymweld â hwb Chaergybi yn ddiweddar ac mae Lesley Griffiths yn ymweld ag ardal Seiriol ddechrau’r mis nesaf.

Prosiect arall llwyddiannus i oedolion a hybwyd gan yr adran yw Heneiddio’n dda a bu i’r gwaith yma hefyd gael canmoliaeth am fod yn arloesol.

Dyfynnaf o lythyr dderbyniais gan y Comisiynydd Pobl Hŷn ar yr 20fed o Ebrill ‘*Yn ail, dros y misoedd diwethaf rwyf wedi gofyn i bob Awdurdod Lleol yng*

*Nghymru anfon enghreifftiau o arfer da ataf o ran gwasanaethau cymunedol a chyhoeddus arloesol er budd pobl hŷn. Prin iawn yw'r enghreifftiau sydd wedi dod i law gydag arbedion cost bendant i'r Awdurdod Lleol; dim ond chwe enghraifft sydd â'r wybodaeth angenrheidiol, ac mae tair o'r rhain ar Ynys Môn.*'

Yn ogystal â'r uchod, mae'r adran wrthi'n gweithio ar gynlluniau datblygu anheddau gofal ychwanegol.

Mae tystiolaeth gref bod cynnydd sylweddol yn ein cynlluniau trawsnewid gofal pobl hŷn ac ein bod hefyd yn ymgysylltu â'n trigolion ac yn gwrando ar eu dyheadau.

**PRIFFYRDD**

**Bwriad** - Mae'n angenrheidiol ein bod yn gweithio gyda'r Adran Briffyrdd ar gynllun atgyweirio a chynnal a chadw y gellir ei gyflawni dros y tymor hir. Byddwn yn sicrhau bod cyllidebau refeniw a chyfalaf digonol mewn lle yn y dyfodol i gynnal ein ffyrdd i safon dderbyniol.

**Sefyllfa gyfredol** - Gan fod cynllun benthyca Llywodraeth Cymru wedi dod i ben fe glustnodwyd arian cyfalaf o £2,000,000 i'r adran Briffyrdd i bwrpas cynnal a chadw ein ffyrdd am y flwyddyn ariannol 2015 - 2016.

**SWYDDI A'R ECONOMI**

**Bwriad** - Hyd nes y gall y pleidiau gwleidyddol cenedlaethol wrthdroi'r sefyllfa economaidd wan a darparu swyddi yn y sector preifat, byddwn yn gwrthwynebu unrhyw gynlluniau ar gyfer ad-drefnu llywodraeth leol.

Byddwn yn gweithio i greu swyddi drwy ailsefydlu cynllun hyfforddai proffesiynol yn y Cyngor ar gyfer rhai sy'n gadael ysgol a choleg.

Parhau i frwydro i sicrhau bod y buddsoddiad yn y Wylfa Newydd yn dod i Ynys Môn a chreu 1,000 o swyddi parhaol pan fydd yn weithredol.

**Sefyllfa gyfredol** - Bu i'r grŵp annibynnol a'r wrthblaid bleidleisio i wrthod ad-drefnu llywodraeth leol drwy uno gwirfoddol yng nghyfarfod y Cyngor Sir ar yr 30ain o Fedi 2014.

Mae'r adran gyllid wedi ailsefydlu trefn o gyflogi hyfforddeion proffesiynol.

Mae'r grŵp annibynnol a'r mwyafrif o aelodau etholedig arall dal yn gryf yn eu cefnogaeth i Wylfa Newydd. Er hyn, nid yw'r gefnogaeth hon i'w chymryd yn

ganiataol ac mi fyddwn yn gweithio efo’r Datblygwr i wneud yn sicr bod mwyafrif y swyddi trwy’r cyfnod adeiladu a gweithredu yn mynd i bobl leol fydd wedi eu hyfforddi ac â’r sgiliau angenrheidiol. Mae’r gefnogaeth yn amodol ar gefnogaeth y datblygwr i ddiogelu’n iaith a diwylliant. Bu ein hymateb i’w dogfen ymgynghori cyntaf yn un cynhwysfawr oedd yn dangos nad oedd ein cefnogaeth yn ddiamod.

**CYNLLUNIO**

**Bwriad** -. Byddwn yn gweithio i sicrhau bod y polisi datblygu lleol rydym yn ei ddatblygu rŵan yn cael ei gyflwyno ar amser ym mis Ebrill 2016. Y bwriad o ran y flaenoriaeth hon oedd sicrhau bod gweithio i bolisi cynllunio datblygu cadarn yn rhoi cysondeb i'r broses o wneud penderfyniadau.

**Sefyllfa gyfredol** - Mae cynnydd da wedi bod o ran datblygiad y Cynllun Datblygu Lleol ac mae yn edrych yn debyg y bydd yn cael ei gyflwyno ar amser. Mae’r bwrdd yn cael ei gadeirio gan y deilydd Portffolio Cynllunio.

**Y GYLLIDEB GYFALAF A'R CYNLLUN CORFFORAETHOL**

**Bwriad** - Oherwydd nad oedd cynllun cyfalaf strategol tymor hir yn ei le yn fy nhymor cyntaf rhwng 2008 – 2013, roeddwn yn benderfynol bod angen rhoi un yn ei le er mwyn gwireddu’r cynllun corfforaethol.

Yng nghyfarfod y Pwyllgor Gwaith ar y 14eg o Orffennaf 2014 fe gyflwynwyd Strategaeth Gyfalaf gan yr Adran Gyllid. Dyma ddyfyniad o’r adroddiad -

‘*Nid yw’r Cyngor wedi bod â Strategaeth Gyfalaf ffurfiol ers peth amser a byddai mabwysiadu un yn awr yn gwella’r modd yr ymdrinnir â phroses rheolaeth ariannol y Cyngor.*

*Mae’r Strategaeth Gyfalaf ynghlwm fel Atodiad A. I grynhoi, mae’n pennu proses ar gyfer nodi a chyflwyno er sylw’r Aelodau, restr o gynlluniau cyfalaf posibl ar gyfer y flwyddyn nesaf ond yng nghyd-destun y modd y byddai’r cynlluniau arfaethedig o gymorth i gyflawni’r blaenoriaethau corfforaethol (neu ofynion statudol eraill) y mae’r Aelodau wedi eu pennu ar gyfer y Cyngor.*

*Un o ofynion y strategaeth hefyd yw bod adroddiadau rheolaidd yn cael eu cyflwyno i’r Aelodau er mwyn sicrhau tryloywder llawn a chytundebau llywodraethiant priodol mewn perthynas â chyflawni cynlluniau Cyfalaf y cytunwyd arnynt.*’

## DEFNYDD O STAFF ASIANTAETH A CHAFFAEL

**Bwriad** - Parhau i herio'r camddefnydd o arian cyhoeddus drwy gyflogi staff asiantaeth am gyfnodau rhy hir nes y bydd yr arfer yn dod i ben.

Gweithio efo'r Cyngor er mwyn cynyddu nifer y cytundebau y gellir eu hennill gan gwmnïau lleol drwy fabwysiadu strategaeth gaffael hyblyg.

**Sefyllfa gyfredol** - Mae'r nifer o staff asiantaeth yn cael ei gofnodi a'i herio yn chwarterol drwy'r cerdyn sgorfwrdd corfforaethol. Mae'r nifer o staff asiantaeth a ddefnyddir yn yr Adran Gyllid wedi lleihau.

Yn y cyfarfod diwethaf o'r Pwyllgor Gwaith ar yr 20fed o Ebrill, fe gymeradwywyd Strategaeth a Pholisi Caffael newydd. Mae rhan 7 o'r Strategaeth yn ymdrin ag Anghenion yr Iaith Gymraeg yng nghyd-destun caffael ac mae rhan 8 yn ymdrin â chefnogi'r Economi Leol.

## ARFARNU SWYDDI

**Bwriad** - Y dyddiad diweddaraf ar gyfer cwblhau gwerthuso swyddi yw 2014. Byddwn yn monitro cynnydd y gwaith yma yn agos hyd nes y bydd wedi ei gwblhau.

**Sefyllfa gyfredol** - Nid yw'r gwaith wedi ei gwblhau yn derfynol ond mae cynnydd mawr wedi bod gydag adroddiad yn y Cyngor diwethaf ac yng nghyfarfod heddiw yn argymell y telerau i gwblhau'r gwaith.

## LLYWODRAETHU CORFFORAETHOL AC ATEBOLRWYDD

**Bwriad** - Mae cyfrifoldebau anferth ynghlwm â'r gwaith a wneir gan y Cyngor ac am y rheswm hwn, bydd cynghorwyr annibynnol yn sicrhau bod y fframwaith atebolrwydd yn cael ei adolygu'n rheolaidd fel bod risgiau a gwendidau yn cael eu trin yn briodol.

**Sefyllfa gyfredol** - Un o'r prif nodau o dan y flaenoriaeth yma oedd datblygu a gwella ein cyfundrefn rheoli risg. Mae gwaith ar y weithdrefn yma wedi ei gwblhau ac mae adroddiadau'n cael eu cyflwyno'n amlach i aelodau ar y gofrestr gyfredol. Mae adroddiad ar risg newydd fod yn y Pwyllgor Archwilio diwethaf a bydd yn cael ei adrodd i'r Pwyllgor Gwaith nesaf.

Yn ogystal â'r gofrestr risg, mae nifer o weithdrefnau eraill wedi eu sefydlu i fonitro perfformiad ac atebolrwydd sef, y cerdyn sgorfwrdd corfforaethol, byrddau trawsnewid, byrddau prosiect, cyfarfodydd herio ac adolygu gwasanaethau, mae cylch gorchwyl y Pwyllgor Archwilio wedi ei ehangu hefyd. Er bod nifer y pwyllgorau craffu wedi lleihau i ddau, mae'r pwyllgorau craffu yn chwarae rôl bwysig yn y drefn llywodraethu corfforaethol.

Yn ogystal â'r gweithdrefnau uchod, roedd diffyg cyfathrebu yn gallu arwain at gamddealltwriaeth gwleidyddol, mae'r gyfundrefn gyfathrebu wedi ei chryfhau drwy sefydlu sesiynau misol i'r holl aelodau ar faterion cyfredol.

## HAMDDEN A LLYFRGELLOEDD

**Bwriad** - Byddwn yn diogelu ac yn gwella'r gwasanaethau yma lle bo modd.

**Sefyllfa gyfredol** - Mae'r toriadau cyllid wedi bod yn anferth dros y ddwy flynedd diwethaf ac mae'r gwasanaethau yma wedi ysgwyddo toriadau mawr dros y pum mlynedd diwethaf yn ogystal, er hyn nid ydym wedi gorfod cau na allanoli ein canolfannau hamdden. Gwnaed penderfyniad yn gynharach yn y flwyddyn i gau'r cwrs golff yn Llangefni ac ar hyn o bryd mae trafodaethau yn mynd rhagddynt hefo sefydliadau allanol i'w gymryd drosodd i'w redeg.

Mae strategaeth hamdden wedi ei sefydlu i fod yn weithredol dros dair blynedd gyda'r nod o ddod â mwy o incwm i mewn fel y bydd y gwasanaeth bron iawn yn hunan-gynaliadwy.

Ar yr ochr llyfrgelloedd, bydd adroddiad ar yr opsiynau ar gyfer y dyfodol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ym mis Gorffennaf. Mae bwrdd prosiect o swyddogion ac aelodaeth drawsbleidiol yn goruchwylio'r gwaith hwn. Bwriad y prosiect fydd gweithredu yn unol â'r safonau Llyfrgell sy'n cael eu cyhoeddi gan Lywodraeth Cymru.

## LLEIHAU ÔL-TROED CARBON

**Bwriad** - Ym mis Mehefin 2012, argymhellodd y Comisiynwyr fod polisi Ynni a Dŵr Adeiladau'r Cyngor yn cynnwys datganiad clir yn amlinellu ymrwymiad yr Awdurdod i leihau allyriadau carbon o 3% ac ynni a dŵr gan 5% y flwyddyn. Gwnaed datganiad hefyd y byddai'r Cyngor yn cyhoeddi'r cynnydd ar gyflawni'r nodau hyn. Byddwn yn sicrhau bod y targedau hyn yn cael eu hadolygu'n flynyddol a'r canlyniadau'n cael eu cyhoeddi.

**Sefyllfa gyfredol** - Ychydig sydd wedi ei wneud ar y flaenoriaeth hon. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi mynd ati i yrru'r flaenoriaeth y flwyddyn hon a derbyniwyd adroddiad ganddynt ar 16eg o Fawrth, y penderfyniad oedd 'mabwysiadu'r Polisi

Ynni a'r Cynllun Gweithredu a gweithredu hefyd ar gynlluniau effeithlonrwydd ynni er mwyn dangos ymrwymiad yr Awdurdod i arbed ynni a lleihau allyriadau carbon.'

**MODERNEIDDIO**

**Bwriad** - Mae llawer o brosesau busnes a ddefnyddir gan y Cyngor yn hen ffasiwn ac angen eu moderneiddio. Cwyn gyffredin yw diffyg cysondeb yn yr amser a gymerir i ateb llythyrau a cheisiadau am wasanaeth. Mae gan y mwyafrif o Gynghorau bellach systemau rheoli gwybodaeth cwsmeriaid i fonitro eu perfformiad wrth ymateb i geisiadau gan y cyhoedd. Bydd gwella'r modd y mae'r Cyngor yn ymdrin â cheisiadau'r cyhoedd yn flaenoriaeth bwysig.

**Sefyllfa gyfredol** - Mae'r flaenoriaeth yma wedi cael sylw dan ddau lif gwaith, y prosiect Gofal Cwsmer lle mae Siarter o'n bwriadau wedi cael eu cyhoeddi a'r ail lif yw'r Prosiect Gweithio'n Gallach. Mae nifer o fwriadau i'r prosiect Gweithio'n gallach - rhesymoli asedau sy'n ddrud i'w rhedeg a chreu derbyniadau cyfalaf drwy gael gwared arnynt, creu derbynfa newydd ar ffurf siop un stop fydd yn gwella profiad y cwsmer, cyflwyno gweithio'n hyblyg i'r Cyngor fydd yn galluogi staff sy'n gweithio allan yn y maes weithio o rywle, moderneiddio dulliau gweinyddu a chryfhau isadeiledd TG y Cyngor.

Dengys yr uchod fod y Cyngor wedi ymrwymo i foderneiddio.

**MATERION CYFOES**

**Bwriad** – Ar adeg yr etholiad, roedd materion cynllunio cyfoes megis tyrbinau gwynt a pheilonau yn destun trafodaeth. Fy mwriad oedd gwrando ar ein cymunedau i ddatblygu a chyflwyno polisïau cryf i sicrhau diogelu'r tirlun o strwythurau diwydiannol ac unrhyw strwythur arall a all gael effaith andwyol ar ansawdd weledol tirwedd yr ynys.

**Sefyllfa gyfredol** – datblygwyd polisi cynllunio i drin a cheisiadau tyrbinau gwynt. Nid yw ein safbwynt ar beilonau wedi newid.

Credaf fod yr uchod yn rhoi darlun ystyrlon a theg o'r flwyddyn sydd wedi hedfan heibio.

I gloi hoffwn ddatgan fy ngwerthfawrogiad i'r Prif Weithredwr am ei arweinyddiaeth ac i holl staff y Cyngor am eu gwaith caled yn ymateb i'r holl heriau.

Hoffwn ddymuno ymddeoliad hapus i Mr Jones a datgan fy niolch am ei gefnogaeth barod ar bob achlysur yr oeddwn angen cymorth.

Ynys Môn

THE ISLE OF

Anglesey

Adroddiad Hunan

Asesiad Ionawr 2015

# Crynodeb Gweithredol

CYNGOR SIR
YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY
COUNTY COUNCIL

www.ynysmon.gov.uk www.anglesey.gov.uk

cyngormon
ioacc

@cyngormon
@angleseycouncil

# Adroddiad Hunan Asesiad Ynys Môn
# Ionawr 2015

## Crynodeb Gweithredol

**Croeso i *Adroddiad Hunanasesu* Cyngor Sir Ynys Môn, y cyntaf o'i fath ers ethol y Cyngor 30 aelod newydd ym mis Mai 2013.**

Pwrpas yr hunanasesiad hwn yw rhoi datganiad sefyllfa ar y cynnydd yr ydym wedi'i wneud wrth ddatblygu fel sefydliad dros yr ugain mis diwethaf.

Caiff ein cynnydd dros yr ugain mlynedd diwethaf ei asesu yn erbyn y **6 Thema allweddol** a amlinellir yn y Cynllun Corfforaethol sy'n cynnal gwaith y Cyngor ac yn mynegi ein gwerthoedd wrth gyflawni ein gweledigaeth sef, erbyn 2017:


> *"y byddwn yn gyngor proffesiynol sy'n cael ei redeg yn dda, yn arloesol yn ein hymagwedd, wedi ymrwymo i ddatblygu ein pobl a phartneriaethau er mwyn darparu gwasanaethau effeithlon ac effeithiol o ansawdd da, sy'n cael eu gwerthfawrogi'n fawr gan ein dinasyddion."*


Mae'r adroddiad hwn yn defnyddio ystod eang o dystiolaeth gan gynnwys y *Datganiad Llywodraethu Blynyddol*, *yr Adroddiad Perfformiad Blynyddol*, heriau'r gwasanaeth, gweithdai i aelodau a swyddogion, ac asesiad sylfaenol cychwynnol o'r *6 Thema Allweddol*. Yr hyn sydd o bwys i'w ei fod yn cadw mewn cof farn y staff a gasglwyd trwy ein *Gweithgorau 6 Thema Allweddol* sy'n cael eu cadeirio gan Reolwyr Canol.

Cyfeirir at gynllun y Cyngor am welliant fel y ***Cynllun Corfforaethol***. Ynddo amlinellir fwriadau a blaenoriaethau'r Cyngor o ran gwelliant parhaus a moderneiddio cynaliadwy dros dymor y Cyngor cyfredol hyd 2017.

At hyn, bwriad y Cyngor yw cynnal Hunanasesiad llawn fel hwn ddwywaith yn ystod tymor y Cyngor. Unwaith hanner ffordd trwy'r tymor, sef yr adroddiad hwn a'r ail tuag at ddiwedd ei gyfnod.

***Mae'r awdurdod wedi dod ymhell, ond rhaid cynnal y momentwm ac mae ein taith yn parhau.***





**Ieuan Williams**
**Arweinydd**

**Richard Parry Jones**
**Prif Weithredwr**

## THEMA 1 – Proffesiynol ac yn cael ei redeg yn dda

| | |
|---|---|
| Rydym wedi ymrwymo i ddatblygu partneriaeth ddemocrataidd a phroffesiynol a fydd yn cynnig arweinyddiaeth, gref, effeithiol ac yn sefydlu'r ymddygiad proffesiynol a sefydliadol angenrheidiol, sy'n ofynnol i sicrhau gwelliant. | **Cyflawni'n Rhannol** |

## 1.1 Trosolwg

Yn yr adran hon edrychir ar ba mor broffesiynol ydym a pha mor dda yr ydym yn cael ein rhedeg. Ceir yma hefyd dystiolaeth o'n canlyniad ein bod yn cyflawni'r thema hon '*yn rhannol'.*

**Amlygir ein casgliad trwy:**

- Ein harweinyddiaeth wleidyddol well, gadarn a chynhwysol
- Aelodau'n cymryd mwy o ran ac yn herio mwy
- Agwedd gorfforaethol yr *Uwch-dîm Arweinyddiaeth*
- Sefydlu amgylchedd gweithio y gellir ymddiried ynddo ac sy'n dryloyw

**Wedi'i gynnal gan:**

- Ein trefniadau llywodraethu gwleidyddol cryf
- Ein hagenda trosglwyddo a mwy o eglurder o ran cyfeiriad i'r rhan fwyaf o wasanaethau
- Gwella trefniadau rheoli ariannol
- Cynnydd sylweddol mewn llywodraethu gwybodaeth
- Ein strategaeth rheoli asedau sy'n cael ei datblygu

**Er mwyn cwrdd â'r thema hon yn llwyr, rhaid i ni wneud newidiadau yn y meysydd a ganlyn:**

✓ Uwch-dîm Arweinyddiaeth yn cyflwyno agwedd fwy corfforaethol a dirprwyo mwy i Benaethiaid Gwasanaeth

✓ Gwella a mireinio trefniadau rheolaeth ariannol mewnol

✓ Gwreiddio ein fframwaith cyfathrebu mewnol, yn cynnwys sesiynau briffio misol i Aelodau, a hawl i staff gael gwybod beth sy'n digwydd

✓ Cryfhau mwy ar ddulliau gweithredu timau rhwng Uwch-swyddogion yn gweithio gydag Academi Wales

✓ Gweithredu'r trefniadau Rheoli Risg Corfforaethol newydd

✓ Adolygu a diweddaru 'Cylch Gorchwyl' y Pwyllgor Archwilio

✓ Egluro rôl y Deiliaid Portffolio Cysgodol a datblygu ymhellach y cynllun gwaith Sgriwtini ac ymgysylltu â rhanddeiliaid

✓ Cyflawni'r Prosiect Caffael Corfforaethol

✓ Datblygu trefniadau Parhad Busnes, yn gorfforaethol ac ar lefel gwasanaeth

## THEMA 2 – Arloesol, Uchelgeisiol ac Eangfrydig

| | |
|---|---|
| *Sefydlu amgylchedd a diwylliant sy'n annog ac yn meithrin arloesedd a syniadau ac atebion creadigol. Bydd y Cyngor yn edrych y tu draw i'r sefydliad i geisio atebion arloesol a fydd o fudd i gwsmeriaid, dinasyddion a chymunedau.* | **Cyflawni'n Rhannol** |

### 2.1 Trosolwg

Mae'r adran hon yn edrych i weld a yw ein gweledigaeth gorfforol yn arloesol, uchelgeisiol ac eangfrydig ac a ydym yn cefnogi diwylliant sy'n arloesol, uchelgeisiol ac eangfrydig. Mae'n rhoi tystiolaeth o'n casgliad ein bod yn cyflawni'r thema hon '*yn rhannol'*.

**Amlygir hyn trwy:**

- Weledigaeth a chyfeiriad cryf trwy'r Cynllun Corfforaethol
- Enw da sy'n gwella
- Rhaglen uchelgeisiol ar gyfer trawsnewid a moderneiddio'r gwasanaeth
- Trefniadau eangfrydig, cryf trwy'r Rhaglen Ynys Ynni a rhaglenni eraill

**Wedi'i gynnal gan:**

- Gyfleoedd i staff ac Aelodau ddysgu oddi wrth eraill
- Cyfleoedd i staff gyfrannu a dylanwadu ar gyfeiriad newid

**Er mwyn cwrdd â'r thema hon yn llwyr, rhaid i ni wneud gwelliannau yn y meysydd a ganlyn:**

✓ Cynnal y cynnydd ar y Rhaglen Trawsnewid

✓ Adlewyrchu effaith Wylfa Newydd a chynlluniau mawr eraill yn ein gwaith cynllunio gwasanaethau yn y dyfodol

✓ Gweithredu Gweithio'n Gallach

✓ Gweithredu Rhaglen o newid diwylliannol

✓ Gweithredu Strategaeth TGCh sy'n cefnogi arloesedd

✓ Datblygu mwy ar gynllun awgrymiadau staff a'i weithredu

## THEMA 3 – Canolbwyntio ar y Cwsmer, y Dinesydd a'r Gymuned

| | |
|---|---|
| *Byddy Cyngor yn mynd ati i ymgysylltu â chymunedau, dinasyddion a chwsmeriaid, ceisio eu barn, deall eu hanghenion ac ymateb yn unol â hynny gan egluro a chyfleu ei gamau'n llawn.* | **Cyflawni'r Rhan Amlaf** |

### 3.1 Trosolwg

Yn yr adran hon edrychir ar faint yr ydym yn canolbwyntio ar ein cwsmeriaid a cheir tystiolaeth o'n canfyddiad ein bod yn cyflawni'r thema hon *'y rhan amlaf'.*

**Amlygir hyn trwy:**

- Ymgysylltu'n effeithiol ar lefel gwasanaeth
- Defnyddio mwy ar sianelau adborth gan ddinasyddion
- Mwy o eglurder o ran cwrdd â disgwyliadau cwsmeriaid

**Wedi'i gynnal gan:**

- Fabwysiadu a gweithredu siarter ymgysylltu â Chynghorau Tref a Chymuned
- Mabwysiadu Siarter Rhagoriaeth Gwasanaeth Cwsmeriaid
- Gweddarlledu cyfarfodydd o bwyllgorau

**Er mwyn cwrdd â'r thema hon yn llwyr, rhaid i ni wneud gwelliannau yn y meysydd a ganlyn:**

✓ Sefydlu a gwreiddio arfer o ymgysylltu'n gorfforaethol ac fel partneriaeth

✓ Gwella ansawdd a nifer y sianelau fel bod modd i Gwsmeriaid gael at wasanaethau

✓ Gweithredu'n llwyr Gynllun Gweithredu Siarter y Cwsmer

✓ Cyflwyno Arf Asesu Gwerthoedd i gynorthwyo wrth recriwtio staff a datblygu staff

✓ Adolygu'r Strategaeth Gyfathrebu

## THEMA 4 – Gwerthfawrogi a Datblygu Pobl

| *Bydd y Cyngor yn gwerthfawrogi ac yn datblygu ei bobl fel eu bod yn fedrus, yn llawn cymhelliant a phob amser yn broffesiynol yn y ffordd y maent yn gweithio. Bydd yn cydnabod llwyddiant ac arloesedd ac ymrwymiad i roi profiad rhagorol i'r cwsmer. .* | **Cyflawni'r Rhan Amlaf** |
|---|---|

### 4.1 Trosolwg

Yn yr adran hon edrychir ar a ydym yn recriwtio'r bobl gywir ac yn eu rheoli'n dda a sut ydym yn gwerthfawrogi ac yn datblygu ein pobl, er mwyn roi tystiolaeth o'n casgliad ein bod yn cyflawni'r thema hon 'y rhan amlaf'.

**Amlygir hyn trwy:**

- Ddatblygu a hyfforddi aelodau a swyddogion
- Seremoni sydd wedi hen ennill ei phlwyf i gydnabod staff
- Lefelau presenoldeb gwell
- Cynnydd o ran cwblhau Arfarnu Swyddi
- Adolygiadau Datblygu Perfformiad Aelodau a Swyddogion

**Wedi'i gynnal gan**:

- Proses Gorfforaethol Adolygu Datblygiad Perfformiad
- Strategaeth Pobl
- Strategaethau Rheoli Gweithwyr a Thalent
- Polisïau Absenoldeb oherwydd Salwch
- Siarter Gwasanaeth Cwsmer
- Rhaglenni Hyfforddi

**Er mwyn cwrdd â'r thema hon yn llwyr, rhaid i ni wneud gwelliannau yn y meysydd a ganlyn:**

✓ Bwrw ymlaen i ddatblygu Cynlluniau Datblygu Gweithlu'r gwasanaeth a chynllunio gweithlu Corfforaethol mewn amgylchedd dwyieithog
✓ Datblygu arf i'w ddefnyddio yn y broses recriwtio i sicrhau bod gan ymgeiswyr werthoedd craidd syn cyd-fynd â rhai ni a rhoi cefnogaeth wedi'i thargedu i staff er mwyn cael gwerthoedd ac agweddau sy'n rhedeg ochr yn ochr â'i gilydd.
✓ Cymryd mantais lawn o system weithlu gyfrifiadurol (HR)
✓ Datblygu'r broses ar gyfer adnabod staff sydd â photensial trwy ein Strategaeth Rheoli Talent a rhoi cyfleoedd i ddatblygu
✓ Adolygiadau Datblygu Perfformiad wedi'u datblygu fel rhan o gofnod electronig staff a chyda chysylltiadau cliriach rhwng amcanion corfforaethol, gwasanaeth ac unigol
✓ Cyflwyno proses Adolygu Datblygiad Perfformiad gyflawn ar gyfer Penaethiaid Gwasanaeth a'r Uwch-dîm Arweinyddiaeth
✓ Gweithredu system rheoli polisïau ar gyfer Cyngor fydd yn cynnwys polisïau, trefniadaethau a phrotocolau corfforaethol allweddol

## THEMA 5 – Wedi Ymrwymo i Bartneriaeth

| | |
|---|---|
| *Rydym yn deall na allwn gyflawni'r trawsnewid gofynnol ar ein pennau ein hunain ac rydym wedi ymrwymo i weithio mewn partneriaeth gyda phartneriaid yn y sector cyhoeddus, gwirfoddol a phreifat er mwyn cael twf a datblygiad cynaliadwy.* | **Cyflawni'r Rhan Amlaf** |

### 5.1 Trosolwg

Yn yr adran hon edrychir ar ba mor ymrwymedig ydym i agenda'r bartneriaeth a rhoddir tystiolaeth o ba mor effeithiol ydyw wrth roi sylw i'n casgliad ein bod yn cyflawni'r thema hon 'y *rhan amlaf'.*

**Amlygir ein Casgliad trwy:**

- Drefniadau partneriaeth helaeth ar draws y Cyngor yn strategol ac yn weithredol
- Enghreifftiau o bartneriaeth lwyddiannus sy'n cael ei gyrru gan ganlyniadau
- Datblygu mwy ar ein darpariaeth Ynys Ynni

**Wedi'i gynnal gan:**

- Ymgyrch gydweithredol i ddiwygio ac egluro cyfeiriad y Bwrdd Gwasanaeth Lleol i'r dyfodol
- Mabwysiadu Siarter Cynghorau Tref a Chymuned
- Sefydlu Bwrdd Cyflawni Integredig rhwng y Cyngor ac Iechyd
- Arwain y Bwrdd Diogelu Rhanbarthol

**Er mwyn cwrdd â'r thema hon yn 'llawn' mae angen i ni wneud gwelliannau yn y meysydd a ganlyn:**

- ✓ Gwella arfarniad Sgriwtini o drefniadau partneriaeth ranbarthol, isranbarthol a lleol er mwyn sicrhau budd i ddinasyddion Môn a bod y trefniadau hyn yn mynd ochr yn ochr â'r Bwrdd Gwasanaeth Lleol
- ✓ Datblygu Strategaeth Gyfathrebu ar gyfer y Bwrdd Gwasanaeth Lleol
- ✓ Mwy o gyflymder a dwyster o ran trefniadau partneriaeth gyda Chynghorau Tref a Chymuned
- ✓ Cryfhau trefniadau llywodraethu penodol
- ✓ Datblygu Polisi Partneriaeth gydag arweiniad clir ar feini prawf ar gyfer mynd i bartneriaeth ac ar fodelau llywodraethu disgwyliedig

## THEMA 6 – Cyflawni

| *Mae'r Cyngor yn ymateb i ganlyniadau ac mae'n ymdrechu i wella perfformiad mewn meysydd pwysig o'n gwaith* | **Cyflawni'r Rhan Amlaf** |
|---|---|

### 6.1 Trosolwg

Mae'r adran hon yn edrych ar ba mor dda yr ydym yn rheoli ein perfformiad ac yn rhoi tystiolaeth o'n casgliad ein bod yn cyflawni'r thema hon *'y rhan amlaf'*.

**Amlygir ein casgliad trwy:**

- Ganolbwyntio ar gyflawni'r Cynllun Corfforaethol a'r cynnydd a wnaed wrth wneud hynny
- Sefyllfa well o ran Dangosyddion Strategol Cenedlaethol a Mesurau Atebolrwydd Cyhoeddus
- Cyflawni ein Cytundeb Cyflawniadau
- Cyflawni Gwobrau Cenedlaethol
- Barn well ein rheoleiddwyr

**Wedi'i gynnal gan:**

- Brosesau cynllunio busnes gwell
- Datblygu cardiau sgorio Corfforaethol a Gwasanaeth
- Adolygiadau perfformiad gwasanaeth heriol
- Rheoli rhaglenni a phrosiectau'n effeithiol

**Er mwyn cwrdd â'r thema hon yn llawn rhaid i ni wneud gwelliannau yn y meysydd a ganlyn:**

✓ Datblygu mwy ar Gynllun Cyflawni'r Cynllun Corfforaethol
✓ Cael cysondeb yn safon y Cynlluniau Cyflawni Gwasanaeth
✓ Parhau i fireinio Cardiau Sgorio Corfforaethol a Gwasanaeth
✓ Sicrhau y gweithredir camau i Adolygu Perfformiad Gwasanaethau
✓ Adeiladu ar lwyddiant Y Byrddau Rhaglen Trawsnewid Corfforaethol a phrosesau sy'n eu cynnal
✓ Caffael a gweithredu system rheoli perfformiad electronig corfforaethol, diogelu'r sgiliau dadansoddol sy'n ofynnol a grymuso staff trwy eu hyfforddi i reoli perfformiad yn well.

This page is intentionally left blank